# Cynllunio a monitro gofynion gwaith gweithwyr llwyfan

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynllunio'r gwaith sydd ei angen a phenderfynu pa adnoddau a staff sydd eu hangen i gwrdd â gofynion cyfan ac o ddydd i ddydd y prosiect. Mae'n cynnwys gwybod am allu pob aelod o'r tîm a sut i neilltuo, monitro a goruchwylio eu gwaith.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sy'n goruchwylio gweithwyr llwyfan.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dehongli gofynion y cynhyrchiad
2. cynllunio gwaith gweithwyr llwyfan yn unol â chynlluniau a chyfarwyddiadau technegol cyfan
3. cael a gwirio adnoddau i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y gwaith ac yn cwrdd â gofynion y cynhyrchiad
4. dilyn camau cywirol pan fydd adnoddau yn anghyflawn neu anaddas
5. neilltuo gwaith a gweithgareddau yn ôl lefelau sgiliau a gallu
6. ystyried unrhyw newidiadau i amserlen y cynhyrchiad
7. cynllunio'r gwaith i gwrdd ag amserlenni cynhyrchu
8. gosod gorsafoedd gweithio ac offer trydanol yn eu lle gan ystyried anghenion mynediad, trydan ac awyru
9. cynllunio'r gwaith o adeiladu darnau set a'r drefn bydd angen eu gosod a chael gwared arnynt
10. ystyried clirio'r set yn unol ag amserlen y cynhyrchiad wrth gynllunio'r gwaith

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. risgiau a pheryglon posibl sydd ynghlwm â'r gwaith a'r gweithdrefnau ar gyfer delio gyda risgiau a pheryglon yn y gweithle 2. sut i ddehongli cynlluniau technegol a chynlluniau llwyfan ar gyfer gwaith cynllunio 3. deddfwriaeth, rheoliadau a phrotocolau iechyd a diogelwch 4. ble mae'r socedi, awyriadau, mynedfeydd ac allanfeydd mewn argyfwng 5. a oes tanc dŵr a beth ydy ei faint a'i leoliad 6. mesuriadau'r llwyfan 7. sut i bennu staff sydd eu hangen i weithio ar y set yn dibynnu ar eu sgiliau a'u galluoedd 8. yr amserlen sydd wedi'i chaniatáu ar gyfer y gwaith yn unol ag amserlen y cynhyrchiad

SKSSH9

Cynllunio a monitro gofynion gwaith gweithwyr llwyfan

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSSG14 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyfryngau a chyfathrebu, Celfyddydau Perfformio, Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Pobl Broffesiynol Cyswllt y Cyfryngau |
| **Cyfres/Set** | Gweithwyr Llwyfan Cynyrchiadau |
| **Geiriau Allweddol** | gweithwyr llwyfan; cynllunio; adnoddau; staff; gofynion; cymwysterau; amserlenni; peryglon; |